



GALW AR ARTISTIAID LLAWRYDD

Ydych chi'n weithiwr proffesiynol theatr, creadigol neu yn y celfyddydau perfformio sy'n gweithio yng ngogledd Cymru? Mae Hijinx yn chwilio am diwtoriaid a hwyluswyr i helpu cyflwyno ei hyfforddiant drama proffesiynol arobryn i berfformwyr awtistig ac/neu ag anableddau dysgu. Os yw hyn yn swnio'n debyg i chi, daliwch ati i ddarllen...



www.hijinx.org.uk/gweithio-gyda-hijinx

✉ amy.griggs@hijinx.org.uk

GALW AR ARTISTIAID LLAWRYDD

Ydych chi'n weithiwr proffesiynol theatr, creadigol neu yn y celfyddydau perfformio sy'n gweithio yng ngogledd Cymru? Mae Hijinx yn chwilio am diwtoriaid a hwyluswyr i helpu cyflwyno ei hyfforddiant drama proffesiynol arobryn i berfformwyr awtistig ac/neu ag anableddau dysgu. Os yw hyn yn swnio'n debyg i chi, daliwch ati i ddarllen...

Mae Hijinx, sef cwmni theatr proffesiynol nid-er-elw, yn cynnig rolau i actorion ag anableddau dysgu mewn cynyrchiadau arobryn sy'n teithio o amgylch y byd.

Mae gennym rwydwaith o 60+ o actorion hyfforddedig ynghyd â thros 70 o gyfranogwyr cymunedol ledled Cymru sydd ag anableddau dysgu a datblygiadol, gan gynnwys syndrom Down, awtistiaeth a syndrom Asperger.

Mae hwn yn gyfle gwych i ymuno â'n cronfa o Diwtoriaid a Hwyluswyr Cynorthwyol llawrydd yn Hijinx, sef un o'r gwneuthurwyr theatr a darparwyr hyfforddiant perfformio cynhwysol mwyaf blaenllaw yn y DU i actorion ag anableddau dysgu ac/neu awtistiaeth.

Mae Academiâu Hijinx yn cynnig yr unig gwrs hyfforddiant perfformio proffesiynol yng Nghymru i actorion ag anableddau dysgu ac/neu awtistiaeth, ac rydym yn cynnig cyfleoedd na fyddwch yn dod ar eu traws unrhyw le arall. Rydym yn cynnal pum Academi ledled Cymru ac mae gennym dros 60 o actorion dan hyfforddiant. Mae grwpiau Sylfaen Drama yn cynnig cyfle i ddsygu sgiliau bywyd

hanfodol a magu hyder drwy ddrama, cerddoriaeth a symud ac rydym yn cynnal tri grŵp ar hyn o bryd. Ochr yn ochr â hynny, rydym yn cynnal dau grŵp theatr i bobl ifanc (Bangor a Chaerdydd) a'n grŵp theatr cymunedol cynhwysol, Odyssey, yng Nghaerdydd.

Mae ein gweithgareddau Academi yng ngogledd Cymru yn cael eu cynnal bob dydd Llun a dydd Mawrth, o 10am i 4pm (gan gymryd egwyl am wythnos yn unig dros y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd). Ar hyn o bryd, mae'r sesiynau'n cael eu cynnal yng nghanolfan Cerdd a Ffilm Cymunedol TAPE ym Mae Colwyn. Er mwyn ymateb i Covid-19, bu rhai newidiadau dros dro i'r amserlen, ond mae'r rhain o fewn yr amseroedd sydd wedi'u nodi uchod.



Y ROLAU

Tiwtoriaid

Mae Hijinx yn chwilio am artistiaid perfformio sefydledig sy'n gweithio yn y diwydiant ar hyn o bryd i diwtora ar gwrs yr Academi yng ngogledd Cymru.

Nid oes cwricwlwm swyddogol, felly gall ein tiwtoriaid ganolbwyntio ar beth bynnag yw eu harbenigedd. Mae tiwtoriaid yn cynllunio ac yn arwain y sesiwn yn eu harbenigedd dewisol, mewn ymgynghoriad â Chyfarwyddwr yr Academi.

Manteision dod yn un o diwtoriaid Hijinx:

- Cewch weithio â'n carfan anhygoel o actorion ag anableddau dysgu a/neu niwrowahanol.
- Cewch gyfle i ymestyn/archwilio eich arfer eich hun a dysgu mwy am weithio mewn amgylchedd cynhwysol.
- Nid oes cwricwlwm swyddogol, felly gall ein tiwtoriaid ganolbwyntio ar eu harbenigedd, beth bynnag ydyw.
- Gall ein tiwtoriaid gymryd rhan ym mhrosiectau eraill Hijinx, p'un a yw'n hynny fel rhan o'n timau cynllunio neu arwain eu prosiectau eu hunain â ni.
- Hyblygrwydd – rydym yn trefnu amserlenni bob tymor wedi'u seilio ar argaeledd tiwtoriaid, sy'n rhoi digon o amser i chi gynllunio eich ymrwymadau eraill o gwmpas eich tiwtora.
- Rydym yn deall, fel gweithwyr llawrydd, bod cyfleoedd yn codi o dro i dro na ellir eu gwrthod, felly rydym yn fodlon i ddarpariaeth gyflenwi gael ei threfnu o'n cronfa o diwtoriaid, yn ôl yr angen.
- Trwy weithio â Hijinx, gall tiwtoriaid fanteisio ar hyfforddiant Diogelu Lefel 2 a Chymorth Cyntaf yn y Gwaith yn rheolaidd.
- Gall pob tiwtor fanteisio ar ein Rhaglen Gymorth i Gyflogeion a dulliau eraill o gynorthwyo gweithwyr llawrydd.
- Mae gennym grwpiau Theatr Pobl Ifanc a Sylfaen Drama y Gogledd sy'n gweithredu yn yr ardal hefyd, felly wedi i chi ddod yn Diwtor Academi, efallai y bydd cyfle i chi weithio ar draws yr holl weithgareddau yng ngogledd Cymru.

Ein cyfraddau i diwtoriaid yw £170 y dydd neu £85 am hanner diwrnod, gan gynnwys costau teithio. Fel arfer, mae Diwrnod Academi yn cael ei gynnal o 9.30am - 4.30pm.



Hwyluswyr Cynorthwyol

Rydym yn chwilio am unigolion sy'n aelodau da o dîm, sydd â sgiliau cyfathrebu effeithiol a chefnidir/gwybodaeth am y celfyddydau i ymuno â'n cronfa o weithwyr llawrydd fel Hwyluswyr Cynorthwyol yng ngogledd Cymru. Mae Hwyluswyr Cynorthwyol yn cynorthwyo'r tiwtor drwy sicrhau bod yr holl gyfranogwyr yn dilyn y sesiwn ac yn gallu ymgysylltu a chyfranogi'n llawn; yn aml, maent yn ymuno â'r ymarferion ac yn arwain drwy esiamp.

Yr Hwylusydd Cynorthwyol yw'r cyswllt cyntaf ar gyfer ymdrin ag unrhyw broblemau ymddygiadol neu ddigwyddiadau a all godi yn ystod y sesiwn, er mwyn i'r tiwtor allu cadw'r sesiwn gyffredinol ar y trywydd iawn. Mae'r Hwylusydd Cynorthwyol yn gyfrifol am y gofrestr a'r cofnodion dyddiad sy'n cael eu cofnodi'n electronig drwy Salesforce.

Mae manteision bod yn Hwylusydd Cynorthwyol Hijinx yn cynnwys:

- Cewch weithio â'n carfan anhygoel o actorion ag anableddau dysgu a/neu niwrowahanol.
- Cewch gyfle i ymestyn/archwilio eich arfer eich hun a dysgu mwy am weithio mewn amgylchedd cynhwysol.
- Cewch weithio a dysgu oddi wrth artistiaid sefydledig sy'n gweithio yn y diwydiant ar hyn o bryd.
- Weithiau, mae ein Hwyluswyr Cynorthwyol yn cael cyfle i gymryd rhan ym mhrosiectau eraill Hijinx fel rhan o'r tîm cynllunio a chymorth.
- Hyblygrwydd – rydym yn trefnu amserlenni bob tymor wedi'u seilio ar argaeledd ein Hwyluswyr Cynorthwyol, sy'n rhoi digon o amser i chi gynllunio eich ymrwymadau eraill o gwmpas eich gwaith gyda Hijinx. Fodd bynnag, rydym yn deall, fel gweithwyr llawrydd, bod

cyfleoedd yn codi o dro i dro na ellir eu gwrthod, felly rydym yn fodlon i ddarpariaeth gyflenwi gael ei threfnu o'n cronfa o Hwyluswyr Cynorthwyol, yn ôl yr angen.

- Trwy weithio â Hijinx, gall ein Hwyluswyr Cynorthwyol fanteisio ar hyfforddiant Diogelu Lefel 2 a Chymorth Cyntaf yn y Gwaith yn rheolaidd.
- Gall pob Hwylusydd Cynorthwyol fanteisio ar ein Rhaglen Gymorth i Gyflogeion a dulliau eraill o gynorthwyo gweithwyr llawrydd.
- Mae gennym grwpiau Theatr Pobl Ifanc a Sylfaen Drama y Gogledd sy'n gweithredu yn yr ardal hefyd, felly wedi i chi ddod yn Hwylusydd Cynorthwyol, efallai y bydd cyfle i chi weithio ar draws yr holl weithgareddau yng ngogledd Cymru.

Ein cyfradd tâl ar gyfer Hwyluswyr Cynorthwyol yw £80 y dydd neu £40 am hanner diwrnod, gan gynnwys costau teithio. Fel arfer, mae Diwrnod Academi yn cael ei gynnal o 9.30am - 4.30pm.

Os oes gennych ddiddordeb mewn unrhyw un o'r cyfleoedd hyn, cysylltwch ag amy.griggs@hijinx.org.uk am fwy o wybodaeth.